

## **Erthygl 5 Cadeirio'r Cyngor**

### **5.1 Rolau a swyddogaethau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd**

Ceir hyd i Broffiliau Swydd a Manylebau Person Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn Rhan 6 o'r Cyfansoddiad hwn, oddi mewn i Gynllun Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig.

### **5.2 Dehongli Cyfansoddiad y Cyngor**

Ni chaniateir herio rheoliad Cadeirydd y Cyngor ynghylch llunio neu gymhwyso'r Cyfansoddiad hwn neu ynghylch unrhyw rai o drafodion y Cyngor, mewn unrhyw un o gyfarfodydd y Cyngor. Bydd dehongliad o'r fath yn rhoi ystyriaeth i bwrpasau'r Cyfansoddiad hwn, a gynhwysir yn Erthygl 1.